**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Tachwedd 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-24-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 19 Tachwedd 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod ad-drefnu ar waith ar hyn o bryd sy'n golygu y bydd Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn uno â'r Llyfrgell i greu is-adran newydd fwy a elwir yn "Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau", o dan arweiniad Marie Knox.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor hefyd bod yr is-adran newydd hon yn cynnwys dwy ran, sef  Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor a'r "Gwasanaeth Ymchwil i Aelodau" sydd newydd ei

sefydlu. Bydd Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gweithdrefnau'r Cynulliad, materion cyfansoddiadol a chyfreithiol.

2.3 Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor wahodd Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil i Aelodau, sef Debra Carter i wneud cyflwyniad chwarter awr gerbron y Pwyllgor ynglŷn â'r gwasanaethau y mae ei hadran yn eu cynnig yn awr. Cynigiodd y Pwyllgor y dylid gofyn i Ms Carter wneud cyflwyniad ac i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y Pwyllgor yn ystod y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 3ydd Rhagfyr 2002.

2.4 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor yn trefnu seminar amser cinio ar ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad a'u hymchwilwyr. Nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol i bawb gael eu hysbysu am y cysylltiad rhwng deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth y Cynulliad a'r ffyrdd y gallai'r Cynulliad geisio dylanwadu ar ffurf a chynnwys deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei drefnu mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a bydd yn digwydd rhwng 13.00 – 13.30pm ddydd Mercher, 22ain o Ionawr 2003.

2.5 Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod Aelodau a swyddogion ein Pwyllgor wedi ymweld â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ar y 19eg o Dachwedd 2002. Canfu'r Pwyllgor yr ymweliad yn addysgiadol a defnyddiol iawn. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor hefyd ynglŷn â'r penderfyniad i ddiolch i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol am dderbyn ymweliad gan Aelodau o'r Pwyllgor Deddfau ac i gymeradwyo'r gwaith ar gyd-ddrafftio Offerynnau Statudol. Mae'r Cadeirydd wedi anfon llythyr at y Cwnsler Cyffredinol i'r perwyl hwn. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi cael ateb gan y Cwnsler Cyffredinol ac mae wedi ei ddosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC566 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau i Swyddogion Canlyniadau) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.3 Gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC566 (Adroddiad).

**LC567 – Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cymru) 2002**

3.5 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn y Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

3.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC567 (Adroddiad).

**LC568 – Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.8 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC568 (Adroddiad).

**LC569 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC569 (Adroddiad).

**LC570 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002**
3.14 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.16 Roedd Aelodau yn pryderu y gallai pobol Cymru fod o dan anfantais o ganlyniad i'r ffaith bod y Rheoliadau canlynol wedi dod i rym yng Nghymru saith mis a hanner yn hwyrach na'r darpariaethau cyfatebol yn Lloegr: **LC568 – Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Diwygio) (Cymru) 2002, LC569 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002** a **LC570 – Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002**. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr at y Gweinidog perthnasol yn mynegi'r pryder hwn. **Gweithredu: Clerc/Ymgynghorydd Cyfreithiol.**

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC570 (Adroddiad).

**LC571 - Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (Diwygio) 2002**
3.18 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC571 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
4.1 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid trafod Cyflwyniad Drafft y Pwyllgor i Gomisiwn Richard. Mynegwyd pryder y dylai'r mater hwn gael ei drafod fel mater ar wahân ar yr Agenda gan ei fod mor bwysig. Adroddodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor iddo gael ei hysbysu o'r angen i wneud cyflwyniad o'r Pwyllgor Deddfau i'r Comisiwn Richard ar ôl i'r Agenda gael ei hanfon i'r Aelodau. Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth hon tan yr wythnos nesaf, pan y gellid gosod y mater hwn ar yr Agenda fel eitem ar wahân.

4.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Rhagfyr 2002.